

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

Dyddiad: 11 Medi 2023

Amser: 2.00pm

Yn bresennol: Y Cynghorwyr M Howells (Cadeirydd), J Cleverly, S Adan, J Harris, G Horton, M Linton, A Pimm, C Reeks, J Reynolds a K Thomas

Yn Bresennol: Y Cynghorydd James Clarke (Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai), Andrew Ferguson (Rheolwr Cynllunio a Datblygu), Victoria Gee (Rheolwr Polisi Cynllunio), Sam Schanzer (Ymgynghorydd Craffu), Taylor Strange (Swyddog Llywodraethu). Katharine Majer (Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Democrataidd ac Etholiadol)

1 Ymddiheuriadau

Dim.

2 Datganiadau Buddiannau

Dim.

3 Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Strategaeth a Ffefrir ar gyfer Ymgynghori

Gwahoddedigion:

- Y Cynghorydd James Clarke – yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai
- Andrew Ferguson – Rheolwr Cynllunio a Pholisi
- Victoria Gee – Rheolwr Polisi Cynllunio

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu drosolwg o'r adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor y canlynol:

- Holodd y Pwyllgor am y posibilrwydd o wneud arwyddion stryd yn ddwyieithog. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu ei fod y tu allan i gwmpas y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Fodd bynnag, soniodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn rhan o'u gwaith Cymraeg, a byddai arwyddion stryd newydd yn ddwyieithog pan fydd arwyddion ffyrdd Saesneg yn cael eu disodli.
- Cydnabu'r Pwyllgor yr angen am 10,000 o gartrefi yn ystod y 10 mlynedd nesaf a gofynnodd am y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer datblygu ardaloedd Llain Las. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod penderfyniadau'n ymwneud â pharthau llain las yn cael eu trin gan y Cynllun Datblygu Strategol, a baratowyd gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei weithredu cyn y Cynllun Datblygu Strategol.

- Holodd y Pwyllgor a oes angen i ardaloedd Llain Llas arfaethedig fynd trwy ymgynghoriad cyhoeddus neu gydymffurfio â'r Cynllun Datblygu Strategol. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod materion Llain Las posibl yn cael eu hymchwilio wrth ystyried safleoedd ymgeisiol. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at alwad am safleoedd posibl ac ystyried defnydd safle am wahanol resymau.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen mwy o awgrymiadau cyhoeddus ar gyfer safleoedd i gyrraedd y targed o 10,000 o gartrefi newydd. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod safleoedd allweddol, yn ogystal â dyraniadau nad ydynt wedi'u dosbarthu fel safleoedd allweddol, yn cael eu hystyried, ynghyd ag adeiladau oedd eisoes â chaniatâd cynllunio.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y ffactorau sy'n pennu'r swm tai gofynnol. Soniodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu eu bod yn edrych ar ystadegau poblogaeth a datblygu strategaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau darpariaeth. Fe wnaethant dynnu sylw at uchelgais a chyflawnadwyedd y cynllun, gyda'r ymgynghoriad yn caniatáu i bobl gytuno neu anghytuno â'r amcangyfrifon.
- Holodd y Pwyllgor am y mathau o ddarpariaeth tai oedd yn ofynnol a'r niferoedd. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu y byddai amrywiaeth o fathau o dai, yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion y Farchnad Dai Leol, yn cael eu ceisio ac y byddai'r asesiad hwnnw'n cael ei gynnal yn fuan.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd anghenion y farchnad yn y dyfodol yn cael eu hystyried. Nododd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod datblygiadau â nifer o dai arnynt yn cael eu hystyried i ddefnyddio cyn lleied o dir â phosibl.
- Cydnabu'r Pwyllgor y newid i Gasnewydd tuag at ddod yn ddinas dechnoleg a thrafododd yr effaith bosibl ar ddemocratiaeth. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu mai'r nod oedd dyrannu tir a chyfleoedd.
- Holodd y Pwyllgor ynghylch gorfodadwyedd anghenion tai fforddiadwy a amlygwyd yn yr adroddiad. Tynnodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu sylw at y targedau uchelgeisiol a'r gwaith parhaus o fonitro'r ddarpariaeth er mwyn deall y realiti'n well. Dywedon nhw pe na bai targedau'n cael eu cyrraedd, y byddai'r cynllun yn cael ei ailddatblygu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod ystyriaethau tai fforddiadwy yn cael eu trafod gyda datblygwyr, ond nid oedd modd gorfodi canran o dyraniad o stoc tai i dai fforddiadwy.
- Gofynnodd y Pwyllgor beth fyddai'n digwydd pe na bai'r targedau'n cael eu cyrraedd. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu y byddai'r cynllun yn cael ei ail-werthuso yn yr achos hwnnw.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch fforddiadwyedd tai a'i effaith ar y ddinas. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai y byddai'r pryderon hyn yn cael sylw yn ystod yr ymgynghoriad ac y gellid eu codi fel materion yn ddiweddarach.
- Nododd y Pwyllgor y soniwyd am fwy na 6,000 o swyddi newydd yn yr adroddiad a holwyd am y tir ar gyfer y swyddi hyn. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu wrth y Pwyllgor fod darn o dir cyflogaeth wedi'i ddynodi. Soniodd y Cyfarwyddwr Strategol fod swyddi newydd yn tueddu i feddiannu llai o le.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am y rhagamcanion o ran twf swyddi. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod y rhagamcanion twf ar gyfer swyddi yn uchelgeisiol ac yn canolbwyntio ar greu swyddi newydd, yn hytrach na disodli'r rhai presennol. Fe wnaethant dynnu sylw at ystod o safleoedd sy'n cael eu hystyried i ddenu swyddi newydd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am ddiffiniad tai fforddiadwy. Cyfeiriodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu at ganllawiau ym Mholisi Cynllunio Cymru ac eglurodd fod tai fforddiadwy fel arfer yn cael eu prisiau ar 80% o bris y farchnad agored.
- Holodd y Pwyllgor am nifer a lleoliadau'r digwyddiadau ymgynghori a gynlluniwyd. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod chwe digwyddiad wedi'u cynllunio, gan ddefnyddio lleoliadau ymgynghori blaenorol. Roeddent hefyd yn croesawu awgrymiadau gan y Pwyllgor.
- Mynegodd y Pwyllgor yr awydd am ddosbarthiad cytbwys o leoliadau ymgynghori gan dynnu sylw at bwysigrwydd sesiynau galw heibio yn y Ganolfan Ddinesig a'r llyfrgell.
- Cydnabu'r Pwyllgor effaith bosibl ansefydlogrwydd a gofynnodd sut y byddai'n effeithio ar wneud penderfyniadau. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod y cynllun wedi'i strwythuro ond yn hyblyg, gan ganiatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau rhagweithiol yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael.
- Gofynnodd y Pwyllgor sut y byddai gwasanaethau'r Cyngor yn ymdrin â'r galw cynyddol. Soniodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu am gynllun seilwaith ac ymgynghoriadau cysylltiedig â chydweithwyr o adrannau eraill. Fodd bynnag, nodwyd bod eu safbwynt wedi'i gyfyngu i faterion cynllunio.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd ardoll seilwaith wedi'i mabwysiadu. Nododd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu nad oedd ardoll wedi'i mabwysiadu.
- Holodd y Pwyllgor am y mathau o ddatblygwyr sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau. Soniodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu am ofynion safle ar gyfer datblygwyr cyn y gallant sicrhau contractau. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Strategol y gallai safleoedd mwy gynnwys amrywiaeth o gwmnïau llai.
- Awgrymodd y Pwyllgor newid y term "cymdeithasol" i "gymuned" yn y teitl. Cytunodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu i ychwanegu eglurhad i fynd i'r afael ag amwysedd y term "cymdeithasol" mewn cyd-destunau eraill.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddarpariaethau ar gyfer anghenion gofal iechyd mewn datblygiadau newydd, fel deintyddion a meddygon teulu. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu yr ymgynghorwyd â'r bwrdd iechyd lleol, ond bod practisau preifat yn aml yn dewis eu lleoliadau eu hunain. Fe wnaethant sôn am ymchwiliadau parhaus i ddarpariaethau gofal iechyd a phwysleisio y byddai pob cynllun seilwaith yn destun sylwadau cyhoeddus.
- Gofynnodd y Pwyllgor am roi sylw i dudalen 91 o'r pecyn agenda. Nododd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai y byddai'r ymgynghoriad yn dod i ben tua'r adeg y byddai'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn dechrau.
- Nododd y Pwyllgor nifer o argymhellion gan swyddogion ar gyfer lleoliadau ymgynghori a gofyn am rannu gwybodaeth ymgynghori'n eang. Fe wnaethant hefyd bwysleisio'r angen i osgoi unrhyw fath o ragfarn wrth ddewis wardiau ymgynghori.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y gyllideb ar gyfer ymgynghori. Eglurodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod Cynllunio Cymru yn rheoli'r digwyddiadau ymgynghori, sy'n cael eu gyrru gan alw. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai bwysigrwydd canolbwyntio ar ansawdd yr ymatebion.
- Mynegodd y Pwyllgor gefnogaeth i ddefnyddio stondinau dros dro yn ystod yr ymgynghoriad gan dynnu sylw at yr angen am fersiwn hawdd ei deall o'r adroddiad. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai am wefan bwrpasol y byddai pobl yn cael eu cyfeirio ati.

- Holodd y Pwyllgor am gyrff eraill yr ymgynghorwyd â hwy yn ystod y broses. Cyfeiriodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu at y ddogfen ymgynghori, a oedd yn cynnwys rhestr o'r holl gyrff allanol yr ymgynghorwyd â hwy. Fe wnaethon nhw hefyd grybwyll y gallai cyrff allanol ofyn am fod yn rhan o'r broses ymgynghori.
- Gofynnodd y Pwyllgor sut roedd cyrff allanol yn rhan o'r broses ymgynghori. Eglurodd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu fod cyrff allanol yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac y gallent roi gwybodaeth yn uniongyrchol pe bai gofyn.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Brifddinas-Ranbarth wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad. Nododd y Rheolwr Cynllunio a Datblygu eu rhan wrth greu'r Cynllun Datblygu Strategol a dywedodd eu bod wedi gofyn am sylwadau gan awdurdodau lleol eraill a thrafodaethau parhaus gyda chynghorau cyfagos.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Casgliadau

- Roedd y Pwyllgor yn hapus i argymhell bod y Cynllun Ailddatblygu Lleol Newydd yn mynd ymlaen i'r cam ymgynghori ar sail yr adborth a ddarparwyd.
- Roedd y Pwyllgor eisiau tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu wyneb yn wyneb i drigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod Swyddogion yn defnyddio digwyddiadau cyhoeddus i ymgysylltu â phreswylwyr, gan gynnwys Gŵyl Fwyd Casnewydd.
- Argymhellodd y Pwyllgor y dylid defnyddio Llyfrgell Casnewydd ar y cyd â'r Ganolfan Ddinesig fel lleoliadau wrth gynnal ymgynghoriad wyneb yn wyneb.
- Argymhellodd y Pwyllgor fod Swyddogion Cynllunio yn ymgysylltu â Chynghorwyr ym mhob ward fel rhan o'r ymgynghoriad i nodi safleoedd posibl ar gyfer datblygiadau ychwanegol i'w hystyried ar gyfer y CDLI, ac i ehangu'r ystod o leoliadau lle gellid ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad.
- Gofynnodd y Pwyllgor i'r term "cymdeithasol" ar dudalen 38 o'r agenda / tudalen 12 yr adroddiad gael ei egluro fel cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4 Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023 a 24 Gorffennaf 2023

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023 yn gofnod gwir a chywir. Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2023 fel cofnod gwir a chywir, gyda'r diwygiad canlynol:

Tudalen 13 - Holodd y Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer adeiladu'r ganolfan hamdden a dymchwel yr hen safle. Soniodd Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd am gyfnod adeiladu 18 mis o hyd a nododd fod gwahanol dimau yn trin y cyllid ar gyfer dymchwel ac adeiladu.

5 Adroddiadau'r Ymgynghorydd Craffu

Gwahoddedig:

- Samantha Schanzer – Ymgynghorydd Craffu

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu'r Flaenraglen Waith, a dywedodd wrth y Pwyllgor am y pynciau a oedd i'w trafod yn y ddau gyfarfod pwyllgor nesaf:

Dydd Llun 27 Tachwedd 2023, yr eitem ar yr agenda;

- Adolygiadau Canol Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2023-24 ar gyfer:
 - Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd
 - Tai a Chymunedau
 - Seilwaith

Dydd Mercher 8 Tachwedd 2023, eitemau'r agenda;

- Adolygiadau Canol Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2023-24 ar gyfer:
 - Adfywio a Datblygu Economaidd
 - Cyllid
 - Y Gyfraith a Safonau
 - Pobl, Polisi a Thrawsnewid

Trafododd y Pwyllgor amser dechrau'r cyfarfodydd yn y dyfodol, gan gytuno i ddiwygio cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol i ddechrau am 2pm.

b) Taflen Weithredu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y daflen weithredu i'r Pwyllgor. Nodwyd eu bod yn dal i ddisgwyl am ymatebion i'r ymholiadau a wnaed ar gyfer Adolygiadau Diwedd Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth Adfywio a Datblygu Economaidd, ond bod y rhain yn cael eu siasio.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ar ddau gam gweithredu yn y Daflen Weithredu:

17 Ebrill 2023:

Eitem Agenda: **Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023**

Cam gweithredu - ***“Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am sgysiau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cyfrannu tuag at y gwasanaeth Warden Diogelwch Cymunedol.”***

Dywedodd y Pwyllgor nad oedd yr ymateb yn egluro a ofynnwyd i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyfrannu tuag at y gwasanaeth a ph'un a oeddent wedi gwrthod neu dderbyn. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch a oedd unrhyw sgysiau wedi digwydd gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i geisio cyllid a beth oedd y canlyniad.

10 Gorffennaf 2023:

Eitem Agenda: **Adolygiadau Diwedd Blwyddyn Cynlluniau Gwasanaeth 2022/23**

Cam Gweithredu: ***“Seilwaith - Gofynnodd y Pwyllgor am gynllun i fynd i'r afael â chyflwr gwael ffyrdd ac i wella'r rhwydwaith ffyrdd, yn enwedig gan fod mwy o draffig a materion eraill yn effeithio arnynt. Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Chwefror 2024, ond gofynnodd yr Aelodau i ddata ychwanegol gael ei anfon at y Pwyllgor cyn hynny.”***

Gofynnodd y Pwyllgor a wnaed dadansoddiad cost a budd i benderfynu a yw'n briodol parhau i atgyweirio ffyrdd gydag atgyweiriadau adweithiol neu a oedd yn fwy priodol

buddsoddi mewn rhai newydd gan negyddu'r costau cynnal a chadw adweithiol parhaus yn y tymor byr / canolig a beth oedd y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu y byddent yn cysylltu â'r swyddogion perthnasol am y ceisiadau hyn.

6 **Cyfarfod byw**

[I weld y recordiad o'r cyfarfod cliciwch yma](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 3.33pm